

Gweithgareddau i bawb

Gweithgareddau neu wybodaeth sy'n cynnwys llai o destun a mwy o strwythur. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys symbolau i helpu cyfathrebu. Gall y gweithgareddau yma fod yn addas i blant mewn ysgolion cynradd neu grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i gynnal dysgwyr hŷn, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn helpu

cynghorau ysgol a grwpiau cyfranogiad cymunedol eraill



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales


Geiriau Allweddol

Actifyddiaeth		Cymryd camau gweithredu heddychlon er mwyn cyflawni newid.
Aelodau'r Senedd (ASau)		Person sy'n cael ei ethol i Senedd Cymru. Mae gan bob ardal yng Nghymru Aelod Senedd Cymru.
Baner		Baner neu boster sydd â neges.
Ymgyrch		Ymdrech i greu newid. Gall ymgyrchoedd gymryd amser hir, neu fod yn fyr iawn.
Hawliau Plant		Y pethau mae ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed eu hangen i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.
Dinesydd		Aelod o genedl.




Cyngor Cymuned		Grŵp o bobl leol sy'n gwneud penderfyniadau, yn cynnal gweithgareddau ac yn sefyll i fyny dros eu cymuned.
Cyngor		Grwp o bobl sydd wedi cael eu dewis er mwyn cynrychioli safbwyntiau pobl eraill yn eu hardal nhw.
Democratiaeth		Mewn democratiaeth, mae pobl yn gallu dewis pwy sy'n eu cynrychioli nhw ac sy'n gwneud penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw.
Etholiad		Yn y Deyrnas Unedig, etholiad yw pryd mae pobl yn dewis gwleidydd i gynrychioli eu hardal leol nhw.
Corff Llywodraethu		Grŵp o bobl sy'n gwneud penderfyniadau am beth sy'n digwydd mewn ysgol.
Llywodraeth		Y Lywodraeth sy'n gyfrifol am sut mae'r wlad yn gweithio.

Dau Dŷ'r Senedd		Ble mae Aelodau Senedd San Steffan yn creu cyfreithiau ar gyfer y Deyrnas Unedig.
Hawliau Dynol		Yr hawliau sydd gan bob person i fod yn gyfartal, yn ddiogel, a mwynhau bywyd llawn.
Lobïo		Ceisio perswadio'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i greu newid. Mae llawer o ffyrdd o lobïo, yn cynnwys llythyron, deisebau a digwyddiadau.
Awdurdod Lleol		Mae'r Deyrnas Unedig wedi'i rhannu'n ardaloedd lleol sy'n gwneud penderfyniadau am yr ardal honno. Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (e.e. Ceredigion, Torfaen).
Aelod Seneddol (AS)		Person sy'n cael ei ethol i senedd y Deyrnas Unedig. Mae AS gan bob ardal yng Nghymru.
Senedd Cymru		Lle mae Aelodau'r Senedd yn creu cyfreithiau i Gymru.


Deiseb		Datganiad yn galw am newid sydd wedi'i lofnodi gan lawer o bobl. Gall deisebau fod ar bapur neu ar-lein.
Gwleidydd		Gwleidyddion sy'n creu cyfreithiau, ac maen nhw'n sefyll i fyny dros y bobl maen nhw'n eu cynrychioli. Gwleidyddion yw ACau ac ASau.
Cân brotest		Cân sy'n cael ei hysgrifennu neu ei pherfformio i geisio gwneud pobl yn ymwybodol o broblem neu greu newid.
Cynrychiolydd		Gwleidydd sydd wedi ennill pleidlais ac sy'n gorfod sefyll i fyny dros y bobl yn yr ardal mae'n ei chynrychioli.
Cyngor Ysgol		Grŵp o ddisgyblion sy'n gwneud penderfyniadau, yn cynnal gweithgareddau ac yn sefyll i fyny dros ddisgyblion eraill yn eu hysgol.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)		Rhestr o'r holl hawliau mae ar bob plentyn o dan 18 oed eu hangen i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.



Llesiant		Cadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.
San Steffan		Y man yn Llundain lle mae Dau Dŷ'r Senedd.
Cyngor ieuenctid		Grŵp o bobl ifanc sy'n gwneud penderfyniadau, yn cynnal gweithgareddau ac yn sefyll i fyny dros bobl ifanc eraill yn eu hardal neu eu cymuned. Enw arall ar gyngor ieuenctid yw fforwm ieuenctid.
Senedd Ieuenctid Cymru		60 o bobl ifanc 11-18 oed sydd wedi cael eu hethol gan bobl ifanc eraill yng Nghymru i siarad am y pethau maen nhw eisiau ac angen.








Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

 Weithiau,  mae'n anodd  gwybod  pwy dylech chi  gysylltu â  i wneud newid.


 Gallai'r  wybodaeth  yma  fod o  help  i chi.

 Hefyd, gallwch chi  ofyn  i oedolyn  roi  help  i chi.




Aelodau Senedd Cymru


60



Mae 60 o Aelodau Senedd Cymru.



Maen nhw'n gwneud cyfreithiau a phenderfyniadau dros Gymru.




Dim ond ar gyfer rhai pethau maen nhw'n gwneud hyn,

e.g.



fel iechyd ac addysg.






Aelodau Senedd y Deyrnas Unedig



Mae yna **650** Aelod o Senedd y DU.



Maen nhw'n




gweithio

yn




San Steffan.



Maen nhw'n



gwneud cyfreithiau



a phenderfyniadau

dros y




Deyrnas Unedig.



Dim ond ar gyfer



rhai pethau



maen nhw'n gwneud hyn,

e.g.



fel


yr heddlu

a




mewnfudo.






Awdurdod Lleol



Mae'r Deyrnas Unedig wedi'i rhannu'n awdurdodau lleol.



22



e.g.

Mae

22


awdurdod lleol

yng

Nghymru,

e.e.

Powys, Pen-y-bont.



Awdurdodau lleol

sy'n gwneud penderfyniadau

am bethau

yn yr

ardal leol.

e.g.



Pethau fel


llyfrgelloedd,

ffyrdd

a

thai.





Cynghorau Cymuned



Mae gan rai llefydd gynghorau cymuned.



Cynghorau cymuned sy'n gwneud penderfyniadau am eich cymuned.

e.g.



Pethau fel meysydd chwarae a goleuadau stryd.



Gweithgareddau estynedig

Mae rhain yn defnyddio mwy o destun,
ac yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl a
llai o strwythur cynnal ar gyfer
gweithgareddau. Efallai bydd yr
adnoddau yma'n addas ar gyfer pobl
ifanc mewn lleoliadau ysgol uwchradd,
lleoliadau Addysg Bellach, neu grwpiau
cyfranogiad a grwpiau cymunedol i bobl
ifanc. Byddan nhw'n helpu cyngorau
ysgol uwchradd a grwpiau eraill llais y
disgybl mewn ysgolion uwchradd.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod sut mae cael yr wybodaeth gywir am beth sy'n digwydd yn y byd. Mae gwahanol safbwyntiau, penawdau camarweiniol a storïau newyddion ffug, yn ogystal â chyfrifon sydd dan reolaeth troliau a botiau.

Dyma rai **awgrymiadau gwyb** ar gyfer cael hyd i ffordd trwy'r holl wybodaeth yma, fel eich bod chi'n gallu cyrraedd y ffeithiau!

1. Meddyliwch am y ffynhonnell

- Os yw'n gyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol, edrychwch ar y ffynhonnell. Beth mae'r person neu'r cwmni tu ôl i'r cyfrif yn ei wneud neu'n sefyll drosto? Pam maen nhw am rannu eu barn ar hyn?
- Os yw'n erthygl mewn papur newydd/ar-lein, ymchwiliwch i'r awdur a'r wefan: ydyn nhw'n cynrychioli safbwynt gwleidyddol? Ydyn nhw'n ceisio gwerthu cynnyrch? Sut gallen nhw fod ar eu hennill os bydd eraill yn cytuno â nhw?

2. Darllenwch yn ofalus

- Cofiwch mai bwriad penawdau yw tynnu sylw a chael pobl i glicio arnyn nhw. Bydd angen i chi ddarllen yr erthygl gyfan i wybod beth sy'n cael ei ddweud mewn gwirionedd.
- Darllenwch y 'ffynonellau cefnogi' sy'n rhan o'r erthygl, e.e. dolenni i astudiaethau. Ydyn nhw'n wir yn cefnogi honiadau'r erthygl?

3. Gwiriwch y ffeithiau

- Gallwch chi ddefnyddio safleoedd i wirio'r ffeithiau rydych chi'n eu darllen. Dyma rai enghreifftiau o safleoedd gwirio ffeithiau:
 - Gwirio ffeithiau yn y Deyrnas Unedig: <https://fullfact.org/>
 - Gwirio ffeithiau a thueddiadau yn y Cyfryngau: <https://mediabiasfactcheck.com/>
 - Gwirio ffeithiau yn yr Unol Daleithiau: <https://www.factcheck.org/>

4. Peidiwch â chael eich dal

- Gwiriwch ddyddiad cyhoeddi'r erthygl. Weithiau bydd hen storïau yn cael eu postio eto os byddan nhw'n ymddangos yn berthnasol, ond dyw hynny ddim bob amser yn golygu eu bod yn berthnasol i fater cyfredol.
- Gwiriwch eich barn eich hun — allai eich cred a'ch barn wleidyddol bersonol fod yn effeithio ar eich gallu i farnu?

- c. Gwiriwch nad jôc sydd yma! Os yw'n ymddangos dros ben llestri, falle mai dychan sydd yma. Byddwch yn arbennig o wyliadwrus ar Ddydd Ffŵl Ebrill!

5. Cadwch lygad ar y newyddion!

- a. Cadwch lygad ar y newyddion i wybod am faterion sy'n dod i'r amlwg neu'n cael eu datgelu, a beth sy'n digwydd yn y byd.

Gweithgaredd rhagflas yw hwn i chi gael profi sut mae canfod ffynhonnell sydd ddim yn ddibynadwy.

Nid postiadau go iawn yw'r enghreifftiau, ond rhai sydd wedi'u seilio ar gynnwys ar-lein.

Gwnewch y gweithgaredd mewn parau neu grwpiau bach.

Sylwi ar y Gwahaniaeth

1. Isod mae pâr o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n trafod y streiciau ysgol oherwydd yr hinsawdd. Marciwch â chylch y gwahaniaethau rhwng y ddau bostiad am y streiciau ysgol oherwydd yr hinsawdd.
2. Faint o wahaniaethau rydych chi'n meddwl eich bod wedi dod o hyd iddyn nhw?
3. Pa bostiad yw'r un mwyaf dibynadwy, yn eich barn chi, a pham? Gallwch chi ddefnyddio'r awgrymiadau gwych i'ch helpu i wneud eich penderfyniad.



Newyddiadurwr 1 ✓

@Newyddiadurwr 1



Merch 16 oed yn pregethu ar ystafell yn llawn gwleidyddion ynghylch pam mae hi'n gwrthod mynd i'r ysgol.

"Greta Thunberg yn siarad o flaen cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd"

1:52 PM · Nov 12, 2019 [Twitter for Android](#)

2.9k Retweets **17.7k** Likes



Newyddiadurwr 2 ✓

@Newyddiadurwr 1



Actifydd ar y newid yn yr hinsawdd yn cyfleu gwirioneddau am yr hinsawdd i gynulleidfa o wleidyddion.

"Greta Thunberg yn siarad o flaen cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd"

1:56 PM · Nov 12, 2019 [Twitter for Android](#)

2.9k Retweets **17.7k** Likes



Estyniad

Ailadroddwch y gweithgaredd yma ar gyfer y ddau bwnc isod.

Pwnc Dau: Benyw'n cael dedfryd o garchar



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales



Newyddiadurwr 3 ✓

@Newyddiadurwr 1

Grŵp bach o brotestwyr yn ymgasglu wrth i fenyw a drywanodd Aelod Seneddol gael dedfryd o 15 mlynedd.

"Protestiadau yn yr Old Bailey wrth i fenyw cael ei dedfrydu am drywanu Aelod Seneddol"

1:56 PM · Dec 18, 2021 [Twitter for Android](#)

897 Retweets 3.3k Likes



Newyddiadurwr 4 ✓

@Newyddiadurwr 1

Torf wyllt o ffanaticiaid yn gadael y llys yn gandryll er bod menyw a oedd yn bwriadu llofruddio gael dedfryd gwta o 15 mlynedd.

"Protestiadau yn yr Old Bailey wrth i fenyw cael ei dedfrydu am drywanu Aelod Seneddol"

1:56 PM · Dec 18, 2021 [Twitter for Android](#)

897 Retweets 3.3k Likes



Pwnc 3: Llai o bobl o'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol nag mewn blynyddoedd blaenorol.



Newyddiadurwr 5 ✓

@Newyddiadurwr 5



Staff o Ewrop sy'n llenwi swyddi dros hanner gweithlu'r GIG (NHS) yn gadael oherwydd Brexit.

"Gostyngiad yn nifer y gweithwyr GIG o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau"

1:56 PM · May 4, 2020 [Twitter for iPhone](#)

1.6k Retweets 8.2k Likes



Newyddiadurwr 5 ✓

@Newyddiadurwr 5



Bydd Brexit yn creu miloedd o gyfleoedd am swyddi yn y GIG ar ôl gyrru'r gweithwyr o Ewrop allan.

"Gostyngiad yn nifer y gweithwyr GIG o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau"

1:56 PM · May 4, 2020 [Twitter for iPhone](#)

1.1k Retweets 4.1k Likes



Wnaethoch chi fwynhau'r gweithgaredd yma? Edrychwch ar enghraifft o bortread negyddol yn y cyfryngau [yma](#), a dysgwch sut mae dadansoddi erthyglau yn y cyfryngau [yma](#) yn ein hadnoddau taclo Islamoffobia.

Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

Senedd Cymru

Mae Aelodau'r Senedd yn eistedd yn Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Mae 60 Aelodau yn y Senedd, ac maen nhw'n cael eu hethol bob 5 mlynedd. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar faterion fel gofal iechyd, cludiant cyhoeddus, a beth rydych chi'n dysgu amdano yn yr ysgol. Dim ond rhai o'r materion mae Aelodau'r Senedd yn gyfrifol amdanyn nhw yw rhain. Yn y gorffennol, aelodau Senedd San Steffan yn Llundain oedd yn gyfrifol am y pethau yma i gyd, ond yn 1997 dewisiodd bobl Cymru i gael Senedd eu hunain fel eu bod nhw'n gallu gwneud penderfyniadau am rhai o'r pethau sy'n eu heffeithio nhw. Enw'r proses yma yw datganoli.

Dyma restr o'r meysydd y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru / y Senedd wneud penderfyniadau amdanyn nhw:

- Amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygu economaidd
- Addysg a hyfforddiant
- Yr amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch rhag tân
- Bwyd
- Iechyd a gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio gwlad a thref
- Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd

- Yr iaith Gymraeg

Dau Dŷ'r Senedd y Deyrnas Unedig (San Steffan)

Mae Dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan yn Llundain, ac yn cynnwys dwy siambr: Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig yn cael eu hethol i eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae Dau Dŷ'r Senedd yn gwneud cyfreithiau a phenderfyniadau ar feysydd sydd ddim wedi eu datganoli i'r Senedd yng Nghymru, a'r enw ar y rhain yw pwerau wedi'u neilltuo. Mae Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig yn cael eu hethol mewn etholiad cyffredinol, sydd fel arfer yn digwydd bob 5 mlynedd

Dyma'r pwerau wedi'u neilltuo y mae Dau Dŷ'r Senedd yn gwneud penderfyniadau amdanyh nhw. Enw'r rhain yw 'pwerau wedi'u neilltuo'.

- Trosedd a chyfiawnder
- Materion Amddiffyn (sut mae'r Deyrnas Unedig yn amddiffyn eu hun)
- Materion Tramor (sut mae'r Deyrnas Unedig yn cyfathrebu gyda gwledydd eraill ac yn gweithio gyda nhw)
- Mewnfudo
- Polisi Masnach (sut mae busnesau y Deyrnas Unedig yn prynu a gwerthu nwyddau)
- Darlledu (rheolau am y cynnwys rydyn ni'n gwyllo a chlywed ar y teledu, y radio, ac arlein)

Cynghorau Lleol

Pwerau i wneud penderfyniadau am ardal leol.

Mae gan Gymru 22 o gynghorau. Mae cynghorau'n cynnwys cynghorwyr sy'n cael eu hethol bob 4 blynedd mewn etholiadau lleol.

Dyma restr o'r pethau mae cyngor lleol yn gwneud penderfyniadau amdanyh nhw:

- Cynllunio a rheoli adeiladu
- Addysg
- Safonau masnach
- Trwyddedu alcohol, adloniant a gamblo
- Iechyd a diogelwch
- Llyfrgelloedd, hamdden a thwristiaeth
- Iechyd yr amgylchedd, gwastraff ac ailgylchu
- Trafnidiaeth a phriffyrdd
- Tai
- Gwasanaethau cymdeithasol

Cynghorau Cymuned

Hefyd mae 730 o gynghorau cymuned yng Nghymru, sy'n gallu bod yn gyfrifol am rhwng 200 a 45,000+ o bobl. Efallai bod eich cyngor lleol yn gyfrifol am faterion sydd ond yn effeithio ar eich cymuned leol, er enghraifft, eich parc lleol.

Â phwy dylech chi gysylltu

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod ai cyfrifoldeb i Senedd Cymru, Dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan, neu Gyngor Lleol yw'r mater rydych chi eisiau ei newid. Edrychwch ar y rhestrau o bwerau, a meddyliwch pwy byddai'r person gorau am y mater rydych chi eisiau ei drafod. Mae'n werth gofyn i'ch athro, neu oedolyn arall rydych chi'n trystio, eich helpu chi. Hefyd gallwch chi gysylltu â mwy nag un o'r sefydliadau yma ar yr un pryd.

Awgrym gwych

Defnyddiwch 'cc' i anfon copi o'r llythyron rydych chi'n eu hanfon at ASau neu ACau at y Comisiynydd Plant. Mae hynny'n helpu'r Comisiynydd i wybod beth rydych chi eisiau ei newid.